Cliciwch yma i ailosod y ffurflen | Cliciwch yma i argraffu'r ffurflen

COP 4 10.13

Y Llys Gwarchod

# Datganiad y dirprwy

| Ar gyfer defnydd y swyddfa yn unig |
|---|
| Rhif yr Achos (os yw'n hysbys)) |
| Dyddiad a dderbyniwyd |

Enw llawn yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef
(dyma enw'r unigolyn nad oes ganddo alluedd, neu yr honnir nad oes ganddo alluedd)

## Adran 1 – Eich manylion chi (y sawl sy'n gwneud cais i gael ei benodi'n ddirprwy)

1.1 Eich manylion ☐ Mr. ☐ Mrs. ☐ Miss ☐ Ms. ☐ Arall ________

Enw cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

1.2 Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post)

Rhif ffôn

| Yn ystod y dydd | |
|---|---|
| Gyda'r nos | |
| Symudol | |

Cyfeiriad e-bost

1.3 Dyddiad geni D D | M M | B B B B

1.4 Beth yw eich cysylltiad â'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef

© Hawlfraint y Goron 2013

Manylion yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef

1.5 Enw llawn

Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post)

Dyddiad geni

| D | D | M | M | B | B | B | B |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Adran 2 – Eich amgylchiadau personol**

2.1 Beth yw eich swydd bresennol?
Os nad ydych mewn swydd gyflogedig, rhowch fanylion eich amgylchiadau presennol.

2.2 Ers faint o amser ydych chi wedi bod yn eich swydd bresennol?

Blynedd Mis

2.3 Ydych chi erioed wedi cael eich penodi'n ddirprwy neu'n atwrnai ar gyfer rhywun arall?

☑ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych chi, rhowch enw(au) yr unigolyn/unigolion ac (os gwyddys) gyfeirnod(au) y llys.

2.4 A ydych chi erioed wedi cael eich dyfarnu'n euog o drosedd? ☐ Ydw ☐ Nac ydw
(Peidiwch â chynnwys euogfarnau sydd wedi dod i ben dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974).

Os ydych chi, rhowch fanylion y trosedd, gan gynnwys dyddiad yr euogfarn.

2.5 A oes yna unrhyw amgylchiadau (personol neu fel arall) a fyddai'n amharu ar eich gallu i gyflawni dyletswyddau dirprwy yn effeithiol? (e.e. gwaeledd neu ymrwymiadau busnes/teuluol). ☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

2.6 Os na chewch eich penodi'n ddirprwy neu os na fydd modd i chi dderbyn penodiad, ydych chi'n ymwybodol o unrhyw unigolyn arall (neu ddeiliad swydd) a fyddai'n hoffi cael ei ystyried ar gyfer swydd dirprwy? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych chi, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| |

## Adran 3 – Eich amgylchiadau ariannol

Llenwch yr adran hon os ydych chi'n gwneud cais i gael eich penodi'n ddirprwy eiddo a materion ariannol.

3.1 A oes gennych chi gyfrif cadw/cyfredol personol mewn banc neu gymdeithas adeiladu? ☐ Oes ☐ Nac oes

3.2 A wrthodwyd credyd i chi erioed? (e.e. cais am fenthyciad personol wedi'i wrthod) ☐ Do ☐ Naddo

Os Do, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| |

3.3 A oes gennych chi unrhyw ddyledion dyfarniad? ☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| |

3.4 Ydych chi'n bersonol erioed wedi cael eich dyfarnu'n fethdalwr neu'n ddyledwr dan Drefniant Gwirfoddol Unigol dan Ran VIII o Ddeddf Ansolfedd 1986? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych chi, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| |

3.5 Ydych chi ar hyn o bryd yn fethdalwr nas rhyddhawyd neu'n ddyledwr dan Drefniant Gwirfoddol Unigol? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych chi, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| |

3.6 A oes unrhyw fusnes y buoch yn gysylltiedig ag ef (boed yn gwmni, partneriaeth neu fel arall) wedi bod yn destun trefn ansolfedd gydnabyddedig (e.e. trefniant gwirfoddol, dirwyn i ben, gweinyddu, derbynyddiaeth, derbynyddiaeth weinyddol)?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| |

3.7 Ydych chi wedi bod yn destun datganiad dan adran 213 (masnachu twyllodrus) neu adran 214 (masnachu anghyfiawn) o Ddeddf Ansolfedd 1986?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych chi, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| |

3.8 Ydych chi wedi bod yn destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad dan adran 281A neu Atodlen 4A i Ddeddf Ansolfedd 1986, neu orchymyn gwahardd dan adran 1 o Ddeddf Cyfarwyddwyr Cwmnïau (Gwahardd) 1986?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych chi, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| |

3.9 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw fater lle y gallai eich buddiannau ariannol wrthdaro â rhai'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef? (e.e. byw mewn eiddo y mae'r unigolyn yn berchen arno, unrhyw fudd o dan delerau ei ewyllys)

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych chi, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| |

## Adran 4 – Eich ymrwymiad personol i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef

Mae dod yn ddirprwy yn golygu bod yn rhaid ymgymryd â nifer o ddyletswyddai a chyfrifoldebau a bod yn rhaid i chi weithredu yn unol â rhai safonau. Os penodir chi'n ddirprwy, bydd y gorchymyn llys yn nodi yr union bwerau a roddir i chi.

Mae'r prif ddyletswyddau a'r cyfrifoldebau y gallech orfod ymgymryd â hwy wedi'u nodi isod. Darllenwch bob un a thicio 'Byddaf' os ydych yn rhoi eich ymrwymiad i weithredu'n unol â'r ddyletswydd neu'r cyfrifoldeb. Gallwch ddefnyddio'r adran 'Sylwadau' i gefnogi'ch ymrwymiadau. Nodwch, os gwelwch yn dda, os oes gennych unrhyw sgil proffesiynol, profiad bywyd, dyletswydd neu swyddogaeth gyhoeddus benodol y credwch sy'n berthnasol.

Os na fyddwch yn rhoi eich ymrwymiad ac yn ticio 'Na', defnyddiwch yr adran 'Sylwadau' i egluro'ch rhesymau. Efallai y bydd oherwydd nad oes gennych eto brofiad o'r ddyletswydd benodol honno, neu efallai eich bod yn teimlo nad ydych yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol. Ni fydd o anghenraid yn atal eich penodi'n ddirprwy.

Ni fydd pob ymrwymiad a nodir isod yn berthnasol i bob dirprwy. Os credwch fod hynny'n wir, ticiwch 'Na', ac eglurwch yn yr adran 'Sylwadau' na fyddai'r ymrwymiad yn berthnasol i'ch penodiad chi.

| | Ymrwymiad | Byddaf neu Na | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Byddaf yn ystyried Cod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a byddaf yn gweithredu egwyddorion y Ddeddf wrth wneud penderfyniad. Yn benodol byddaf yn gweithredu er lles gorau'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef ac ni fyddaf yn gwneud ond y penderfyniadau hynny nad oes modd i'r unigolyn eu gwneud drosto'i hun. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 2 | Byddaf yn gweithredu o fewn cwmpas y pwerau a roddwyd i mi gan y llys fel y nodir yn y gorchymyn penodi a byddaf yn gwneud cais i'r llys os teimlaf fod angen pwerau ychwanegol. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 3 | Byddaf yn gweithredu gyda gofal, medrusrwydd ac ymroddiad priodol, fel y byddwn yn ei wneud wrth wneud fy mhenderfyniadau fy hun a rhedeg fy materion fy hun. Lle byddaf yn ymgymryd â'm dyletswyddau fel dirprwy wrth wneud fy ngwaith proffesiynol (os yw'n berthnasol), byddaf yn glynu at reolau a safonau proffesiynol. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 4 | Byddaf yn gwneud penderfyniadau ar ran yr unigolyn y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef fel sy'n ofynnol dan y gorchymyn llys a'm penododd. Ni fyddaf yn dirprwyo unrhyw un o'm pwerau fel dirprwy oni chaniateir hynny'n benodol yn y gorchymyn llys a'm penododd. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 5 | Byddaf yn sicrhau na fydd fy muddiannau personol yn gwrthdaro â'm dyletswyddau fel dirprwy ac na fyddaf yn defnyddio fy sefyllfa er unrhyw fudd personol. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 6 | Byddaf yn gweithredu'n onest ac yn egwyddorol, ac yn ystyried unrhyw benderfyniadau a wnaed gan yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef tra oedd ganddo alluedd, wrth benderfynu ar ei les gorau. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 7 | Byddaf yn cadw gwybodaeth ariannol a phersonol yr unigolyn yn gyfrinachol (oni fo rheswm da a'i gwna'n ofynnol i mi ei datgelu). | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | Byddaf yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau gan y llys neu geisiadau rhesymol a wneir gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus, gan gynnwys ceisiadau am gyflwyno adroddiadau. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 9 | Byddaf yn ymweld â'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef mor rheolaidd ag sy'n briodol ac yn cymryd diddordeb yn ei les. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 10 | Byddaf yn gweithio gyda'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef ac unrhyw ofalwr/ofalwyr er mwyn cael yr ansawdd bywyd gorau iddo o fewn y cyllid sydd ar gael. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 11 | Byddaf yn cydweithio ag unrhyw gynrychiolydd y llys neu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a allai fod eisiau fy nghyfarfod i neu'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef i wneud yn siŵr fod y trefniadau dirprwyaeth yn gweithio. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 12 | Byddaf yn rhoi gwybod ar unwaith i'r llys a'r Gwarcheidwad Cyhoeddus os bydd gennyf unrhyw reswm i gredu nad oes gan yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef anallu mwyach ac y gallai reoli ei faterion ei hun. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |

| | **Ymrwymiadau pellach os ydych chi'n gwneud cais i gael eich penodi'n ddirprwy eiddo a materion ariannol** | **Byddaf neu Na** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| 13 | Rwy'n deall y gallwn orfod darparu ernes/ gwarant mewn perthynas â'm gweithredoedd fel dirprwy.<br>Os bydd yn rhaid i mi brynu yswiriant, megis bond gwarant, rwy'n addo talu'r premiwm yn brydlon o gyllid yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 14 | Byddaf yn cadw cyfrifon o drafodion a wneir ar ran yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 15 | Byddaf yn cadw arian ac eiddo'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef ar wahân i'm harian a'm heiddo fy hun. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 16 | Byddaf yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol, y bydd yr unigolyn y mae'r cais yn ymweud ag ef yn derbyn bob budd ac incwm arall y mae ganddo hawl iddo, y telir ei filiau ac y llenwir ffurflen dreth ar ei gyfer yn flynyddol. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |
| 17 | Byddaf yn cymryd camau rhesymol i gynnal a chadw eiddo'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef (os yw'n berthnasol) er enghraifft, trefnu yswiriant, atgyweiriadau neu welliannau.<br>Os bydd angen, byddaf yn trefnu ac yn goruchwylio'r gwaith o werthu neu osod eiddo, gyda chyngor cyfreithiol priodol. | ☐ Byddaf<br>☐ Na | |

## Adran 5 – Datganiad personol i'r llys

Nodwch, os gwelwch yn dda, pam yr ydych yn dymuno bod yn ddirprwy i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef

## Adran 6 - Datganiad gwirionedd

Rhaid i'r datganiad gwirionedd gael ei lofnodi gan yr unigolyn sy'n gwneud cais am gael ei benodi'n ddirprwy

Credaf fod y ffeithiau a nodir yn y datganiad hwn yn wir.

**Llofnod**

**Enw**

**Dyddiad**